

# CYFRIFIANNELL CYLLIDEB MAETHYNNAU – CWESTIYNAU CYFFREDIN

## Cwestiynau Cyffredin

Adroddiad ar gyfer: Llywodraeth Cymru

Cyf. FAQS_V1_1

Cyf. Ricardo ED18036 Cyhoeddiad: 1.1 10/09/2024

Ricardo, Gemini Building, Fermi Avenue, Harwell, Swydd Rydychen, OX11 0QR, y Deyrnas Unedig | +44(0)1235 75 3000 | www.ricardo.com
Rhif cwmni cofrestredig 08229264 | Rhif TAW GB 212 8365 24

Cwsmer:
Llywodraeth Cymru

Cyfeirnod y cwsmer:
FAQS_V1.1

Cyswllt:
Dr Jenny Mant
Gemini Building,
Fermi Avenue,
Harwell, Didcot,
OX11 0QR, y Deyrnas Unedig

Ff: +44 (0) 1235 753 328
E: Jenny.Mant@Ricardo.com

Cyfrinachedd, hawlfraint ac atgynhyrchu:

Mae'r adroddiad hwn yn Hawlfraint Llywodraeth Cymru ac fe'i paratowyd gan Ricardo, un o enwau masnachu Ricardo-AEA Ltd dan gontract gydag Arup. Ni cheir atgynhyrchu cynnwys yr adroddiad hwn, yn gyfan gwbl nac yn rhannol, na'i drosglwyddo i unrhyw sefydliad nac unigolyn heb ganiatâd ysgrifenedig penodol ymlaen llaw Hawlfraint Llywodraeth Cymru. Nid yw Ricardo yn derbyn unrhyw atebolrwydd o gwbl i unrhyw drydydd parti am unrhyw golled neu niwed sy'n deillio o unrhyw ddehongliad neu ddefnydd o'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, na dibyniaeth ar unrhyw safbwyntiau a fynegir ynddo, heblaw am yr atebolrwydd a gytunir yn y contract dywededig.

Awdur:
Declan Sealy

Cyfeirnod Ricardo:
ED18036100

Dyddiad:
11/09/2024

Mae Ricardo wedi'i ardystio i ISO9001, ISO14001, ISO27001 ac ISO45001.

Cyfeirir at Ricardo, ei gysylltiadau a'i is-gwmnïau a'u swyddogion, cyflogeion neu asiantiaid priodol, yn unigol ac ar y cyd, fel 'Grŵp Ricardo'. Nid yw Grŵp Ricardo yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb ac ni fydd yn atebol i unrhyw unigolyn am unrhyw golled, niwed neu draul a achosir gan ddibynnu ar y wybodaeth neu'r cyngor yn y ddogfen hon na sut bynnag y'i darperir, oni bai bod yr unigolyn hwnnw wedi llofnodi contract gydag endid perthnasol Grŵp Ricardo i ddarparu'r wybodaeth hon neu'r cyngor hwn ac, yn yr achos hwnnw, bydd unrhyw gyfrifoldeb neu atebolrwydd yn unol â'r telerau a'r amodau a amlinellir yn y contract hwnnw yn unig.

# CYNNWYS


1. CYFRIFIANNELL CYLLIDEB MAETHYNNAU – CWESTIYNAU CYFFREDIN DEFNYDDWYR 3
   - 1.1 BETH YW'R GYFRIFIANNELL CYLLIDEB MAETHYNNAU? 3
   - 1.2 BETH YW CYLLIDEB MAETHYNNAU? 3
   - 1.3 SUT GALLAF DDEFNYDDIO'R GYFRIFIANNELL? 3
   - 1.4 BETH SY'N OFYNNOL AR ÔL I MI GYFRIFO CYLLIDEB MAETHYNNAU? 3
   - 1.5 A ELLIR DEFNYDDIO'R GYFRIFIANNELL I DDANGOS TYSTIOLAETH O FESURAU LLINIARU? 3
   - 1.6 PA FATH O DDATBLYGIAD YW SAFLEOEDD CARAFANNAU? 3
   - 1.7 A ALL SUDDFANNAU DŴR A ADEILADWYD O DAN Y RHEOLIADAU ADEILADU GAEL EU DOSBARTHU'N SUDS? 4
2. CYFRIFIANNELL CYLLIDEB MAETHYNNAU – CWESTIYNAU CYFFREDIN AM DYSTIOLAETH 5
   - 2.1 PAM Y DEFNYDDIWYD CYFANSWM Y FFOSFFORWS FEL YR UNED FFOSFFORWS YN Y GYFRIFIANNELL? 5
   - 2.2 PA FATHAU O DDATBLYGIADAU Y GELLIR EU HASESU GAN DDEFNYDDIO'R GYFRIFIANNELL? 5
   - 2.3 A YW'R NEWID YN YR HINSAWDD YN CAEL EI YSTYRIED YN Y CYFRIFIADAU? 5
   - 2.4 BETH YW'R CRYNODIAD FFOSFFORWS DIOFYN AR GYFER GWAITH TRIN DŴR GWASTRAFF HEB DERFYN A GANIATEIR? 5
   - 2.5 A GYMHWYSIR TERFYN GWEITHREDU 90% I WAITH TRIN DŴR GWASTRAFF SYDD Â THERFYNAU FFOSFFORWS A GANIATEIR? 6
   - 2.6 A YW'R GWERTHOEDD DIOFYN AR GYFER SYSTEMAU CARTHFFOSIAETH PREIFAT YN BRIODOL AR GYFER CYMRU? 6
   - 2.7 A GYNHWYSWYD NITROGEN ATMOSFFERIG YN Y CYFRIFIADAU NITROGEN? 6
   - 2.8 BETH YW FFYNHONNELL Y GLUSTOG RAGOFALUS 20%? 6
   - 2.9 PA MOR AML MAE'R CYFRIFIANELLAU CYLLIDEB MAETHYNNAU'N CAEL EU DIWEDDARU? 7
3. CWESTIYNAU CYFFREDIN AM GEFNDIR NIWTRALIAETH MAETHYNNAU 8
   - 3.1 BETH SY'N YSGOGI NIWTRALIAETH MAETHYNNAU? 8
   - 3.2 BETH YW HRA? 8
   - 3.3 PAM MAE CYFRAITH YR UNDEB EWROPEAIDD YN EFFEITHIO AR Y DEYRNAS UNEDIG AR ÔL BREXIT? 8

# 1. CYFRIFIANNELL CYLLIDEB MAETHYNNAU – CWESTIYNAU CYFFREDIN DEFNYDDWYR

## 1.1 BETH YW'R GYFRIFIANNELL CYLLIDEB MAETHYNNAU?

Mae'r Gyfrifiannell Cyllideb Maethynnau ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) yng Nghymru yn offeryn y mae'n rhaid ei ddefnyddio i gyfrifo cyllideb maethynnau ar gyfer datblygiad newydd o fewn dalgylch un o'r naw ACA â nodweddion afonol y mae niwtraliaeth maethynnau'n effeithio arnynt yng Nghymru i gael cymeradwyaeth gynllunio. Mae rhagor o wybodaeth am niwtraliaeth maethynnau ar gael trwy'r ddolen ganlynol: Egwyddorion niwtraliaeth o ran maethynnau o ran datblygiadau neu drwyddedau gollwng dŵr arfaethedig.

## 1.2 BETH YW CYLLIDEB MAETHYNNAU?

Mae cyllideb maethynnau yn deillio o gyfrifiad sy'n cymharu faint o faethynnau a gynhyrchir gan y datblygiad trwy greu dŵr gwastraff ychwanegol o fewn y dalgylch a'r newid net i faint o faethynnau sy'n cael eu hallforio trwy'r newid i orchuddion tir.

Gellir defnyddio'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau i gyfrifo cyllideb ffosfforws a nitrogen. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau caniatâd cynllunio, bydd angen i chi ddangos bod cyllideb ffosfforws wedi cael ei chyfrifo yn unig. Cyflwynir y gyllideb fel gwerth rhifiadol cyfanswm y ffosfforws (TP) fesul cilogram y flwyddyn (kg TP/y fl).

## 1.3 SUT GALLAF DDEFNYDDIO'R GYFRIFIANNELL?

Yn gyntaf, bydd angen lawrlwytho'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau o wefan Llywodraeth Cymru. Pan fydd wedi'i lawrlwytho, bydd agor y gyfrifiannell yn lansio Microsoft Excel. Bydd y gyfrifiannell yn llwytho i'r ddalen waith cyfarwyddiadau yn awtomatig. Mae'r ddalen waith hon yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r gyfrifiannell. Mae'n rhaid i chi ddarllen y cyfarwyddiadau cyn defnyddio'r gyfrifiannell. Mae dogfen ganllaw ar gael hefyd sy'n rhoi rhagor o wybodaeth gefndir a chyfarwyddiadau manwl ar sut i ddefnyddio'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau.

## 1.4 BETH SY'N OFYNNOL AR ÔL I MI GYFRIFO CYLLIDEB MAETHYNNAU?

Os yw'r gyllideb maethynnau'n dangos na fydd ffosfforws ychwanegol yn cael ei gynhyrchu (0 kg TP/y flwyddyn), ni fydd angen cymryd unrhyw gamau pellach. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi gyflwyno'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau wedi'i chwblhau yn rhan o'ch cais cynllunio.

Os yw'r gyllideb maethynnau'n rhoi gwerth nad yw'n sero, mae'n rhaid i chi liniaru faint o ffosfforws a gynhyrchir gan y datblygiad i gyflawni niwtraliaeth maethynnau. At hynny, mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi sicrhau'r mesurau lliniaru.

## 1.5 A ELLIR DEFNYDDIO'R GYFRIFIANNELL I DDANGOS TYSTIOLAETH O FESURAU LLINIARU?

Ni ellir defnyddio'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau i helpu i asesu effeithiolrwydd mesurau lliniaru, ac ni all ychwaith helpu i ganfod datrysiadau lliniaru maethynnau. Gellid defnyddio'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau i asesu'r newid net i allforio maethynnau yn dilyn newid i orchudd tir. Er enghraifft, gellid defnyddio'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau i asesu effaith rhoi'r gorau i ddefnyddio gorchudd tir amaethyddol ar gyfer cynhyrchu trwy gofnodi'r gorchuddion tir.

## 1.6 PA FATH O DDATBLYGIAD YW SAFLEOEDD CARAFANNAU?

Dylid defnyddio datblygiad twristiaeth ar gyfer safleoedd carafannau.

## 1.7 A ALL SUDDFANNAU DŴR A ADEILADWYD O DAN Y RHEOLIADAU ADEILADU GAEL EU DOSBARTHU'N SUDS?

Gall suddfannau dŵr a adeiladwyd yn unol â'r rheoliadau adeiladu gael eu dosbarthu'n systemau draenio cynaliadwy (SuDS) ar yr amod bod yr un lefel o graffu yn cael ei chymhwyso. Er enghraifft, byddai angen i'r datblygwr ddangos bod hydreiddedd pridd wedi cael ei asesu, bod lefel trwythiad wedi cael ei mesur, a bod gwaith modelu wedi cael ei gwblhau i ddangos bod y suddfan dŵr yn gallu gwrthsefyll digwyddiadau glawiad y cyfnodau dychwelyd gofynnol.

# 2. CYFRIFIANNELL CYLLIDEB MAETHYNNAU – CWESTIYNAU CYFFREDIN AM DYSTIOLAETH

## 2.1 PAM Y DEFNYDDIWYD CYFANSWM Y FFOSFFORWS FEL YR UNED FFOSFFORWS YN Y GYFRIFIANNELL?

Byddai'n ddefnyddiol ystyried ffosfforws adweithiol hydawdd (SRP) er mwyn rhoi syniad gwell o'r ffynonellau ffosfforws (P) a allai fod yn fwy tebygol o arwain at ewtroffigedd; mae SRP yn fwy amsugnol na ffosfforws gronynnol, er enghraifft. Yn ogystal, 'ffosfforws adweithiol' (a ddiffinnir bellach fel SRP) yw'r paramedr ansawdd dŵr a fesurir yn yr amgylchedd dyfrol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i gynrychioli ïonau orthoffosffad ac fe'i defnyddir i asesu'r cyflwr ecolegol.

Fodd bynnag, mae gan y rhan fwyaf o Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff sydd â therfyn ffosfforws a ganiateir derfyn ar gyfer: 0348: Ffosfforws, Cyfanswm fel P (mg/l). Mae'r cyfernodau allforio ffosfforws ar gyfer gorchuddion tir, a ddatblygwyd trwy fodelu Farmscoper ac o lenyddiaeth, ar ffurf unedau TP/kg/y flwyddyn.

## 2.2 PA FATHAU O DDATBLYGIADAU Y GELLIR EU HASESU GAN DDEFNYDDIO'R GYFRIFIANNELL?

Gellir asesu'r mathau canlynol o ddatblygiadau gan ddefnyddio'r offeryn: Preswyl; Masnachol; Hamdden; Seilwaith gwasanaeth cyhoeddus; Twristiaeth.

A ellir asesu datblygiad amaethyddol gan ddefnyddio'r gyfrifiannell?

Ni ellir asesu datblygiad amaethyddol gan ddefnyddio'r gyfrifiannell. Byddai hyn wedi gofyn am gynnwys modelau amaethyddol ychwanegol yn y gyfrifiannell, fel y model PSYCHIC. Nid oedd ychwanegu'r modelau hyn o fewn cwmpas y prosiect. At hynny, gellir cwblhau'r gwaith modelu hwn o fewn yr offeryn Farmscoper ar hyn o bryd.

## 2.3 A YW'R NEWID YN YR HINSAWDD YN CAEL EI YSTYRIED YN Y CYFRIFIADAU?

Nid yw effaith y newid yn yr hinsawdd ar lygredd maethynnau wedi cael ei hystyried yn uniongyrchol yn y gyfrifiannell. Fodd bynnag, mae clustog ragofalus 20% wedi'i hymgorffori yng nghyfrifiad y gyllideb maethynnau i leihau risg tanamcangyfrif y gyllideb maethynnau.

Mae'r swyddogaeth chwilio am god post yng Ngham 1 y gyfrifiannell yn adalw'r glawiad cyfartalog blynyddol safonol ar gyfer y cyfnod 1990-2019. Dyma'r data mwyaf cyfredol am lawiad a oedd ar gael pan grëwyd y gyfrifiannell.

Ystyriwyd defnyddio amcanestyniadau modelu'r hinsawdd i amlygu newidiadau canrannol amcangyfrifedig mewn glawiad ym mhob sgwâr grid glawiad. Fodd bynnag, mae Model Hinsawdd y Deyrnas Unedig (UKCM) yn awgrymu ar gyfer y llwybr crynodiad cynrychioliadol (RCP) 8.5, sef yr RCP mwyaf rhagofalus o safbwynt newid yn yr hinsawdd, y bydd gostyngiad mewn glawiad. At hynny, fe allai'r patrymau gwlybaniaeth newid gyda phob cyfnod hinsawdd a fodelir. Fel y cyfryw, fe allai cymhwyso amcanestyniadau modelu'r newid yn yr hinsawdd fod wedi arwain at amcangyfrif y llwyth maethynnau yn rhy isel.

## 2.4 BETH YW'R CRYNODIAD FFOSFFORWS DIOFYN AR GYFER GWAITH TRIN DŴR GWASTRAFF HEB DERFYN A GANIATEIR?

O ran gwaith trin dŵr gwastraff (WwTW) sydd â therfyn Llif Tywydd Sych a ganiateir o lai nag 20 $m^3$/y dydd, cymhwysir crynodiad diofyn o 8 mg TP/l.

O ran WwTW sydd â therfyn Llif Tywydd Sych a ganiateir o fwy nag 20 $m^3$/y dydd, cymhwysir crynodiad diofyn o 5 mg TP/l.

Mae'r ffigur 8 mg TP/l wedi cael ei amddiffyn yn llwyddiannus yn yr uchel lys gan Natural England ar gyfer ei ddull niwtraliaeth maethynnau. Mae gwaith monitro heb ei gyhoeddi o WwTW sydd â therfyn Llif Tywydd Sych o fwy nag 20 $m^3$/y dydd yn awgrymu nad yw'r cyfleusterau hyn yn mynd yn fwy na 5 mg TP/l.

## 2.5 A GYMHWYSIR TERFYN GWEITHREDU 90% I WAITH TRIN DŴR GWASTRAFF SYDD Â THERFYNAU FFOSFFORWS A GANIATEIR?

Yn wahanol i'r fethodoleg niwtraliaeth maethynnau yn Lloegr, nid oes trothwy gweithredu 90% ar y terfyn ffosfforws neu nitrogen a ganiateir yn cael ei gymhwyso i gyfrifiadau'r cyllidebau maethynnau. Nid oedd cwmpas y prosiect yn caniatáu ar gyfer nodi a oedd y dybiaeth hon yn briodol. Felly, penderfynwyd mai'r dull mwyaf rhagofalus oedd peidio â defnyddio'r dybiaeth.

## 2.6 A YW'R GWERTHOEDD DIOFYN AR GYFER SYSTEMAU CARTHFFOSIAETH PREIFAT YN BRIODOL AR GYFER CYMRU?

Y crynodiadau diofyn yw: 96.3 mg TN/l ac 11.6 mg TP/l ar gyfer Tanciau Septig; a 72.9 mg TN/l a 9.7 mg TP/l ar gyfer Cyfleusterau Parod i Drin Carthion. Mae'r gwerthoedd hyn wedi'u seilio ar adolygiad o lenyddiaeth ynglŷn â monitro crynodiadau maethynnau yn yr elifion terfynol o systemau carthffosiaeth preifat. Mae'r holl systemau sy'n cael eu monitro wedi'u lleoli yn Lloegr. Ar ôl chwilio am lenyddiaeth, ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw astudiaethau monitro sy'n benodol i Gymru. Mae'r gwerthoedd yr un fath â'r rhai a ddefnyddiwyd gan Natural England yn ei fethodoleg niwtraliaeth maethynnau, a amddiffynnwyd yn llwyddiannus yn yr uchel lys.

Nid yw cwmpas y prosiect hwn yn caniatáu ar gyfer monitro crynodiadau systemau carthffosiaeth preifat yng Nghymru. Mae astudiaethau'n dangos bod crynodiad maethynnau yn yr elifion terfynol o systemau carthffosiaeth preifat yn Lloegr yn amrywio'n fawr. Mae'n annhebygol y bydd systemau carthffosiaeth preifat yng Nghymru yn dangos unrhyw wahaniaeth i'r amrywiad a arsylwyd yn Lloegr. Felly, heb astudiaeth sy'n benodol i Gymru, tybir bod crynodiadau maethynnau yn yr elifion terfynol o systemau carthffosiaeth preifat yn briodol i'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau ar gyfer Cymru.

## 2.7 A GYNHWYSWYD NITROGEN ATMOSFFERIG YN Y CYFRIFIADAU NITROGEN?

Mae nitrogen (N) atmosfferig wedi'i gynnwys yn y gwerthoedd diofyn ar gyfer gorchuddion tir. Tybiwyd gwerth dyddodion atmosfferig diofyn o 16 kg N/ha. Defnyddir y gwerth hwn fel gwerth diofyn yn y gwaith modelu Farmscoper a'r gwerthoedd mannau gwyrdd / coetiroedd naturiol / lled-naturiol. Mae'r cyfernodau allforio trefol wedi'u seilio ar grynodiadau cymedrig digwyddiadau dŵr wyneb ffo a arsylwyd sydd, yn naturiol, yn cynnwys maethynnau sy'n dod o ddyddodion atmosfferig.

## 2.8 BETH YW FFYNHONNELL Y GLUSTOG RAGOFALUS 20%?

Mae'r cyfrifiad cyllideb maethynnau, a mesurau lliniaru dilynol, yn dod o dan gam Asesiad Priodol y broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Mae'n rhaid defnyddio dull rhagofalus ar bob cam o'r broses HRA. Yn unol â hynny, mae'r glustog ragofalus wedi'i hymgorffori yng nghyfrifiadau'r gyllideb maethynnau i leihau risg amcangyfrif y gyllideb maethynnau'n rhy isel. Fe allai tanamcangyfrif y gyllideb maethynnau achosi i'r cynnydd posibl mewn maethynnau sy'n mynd i mewn i'r SAC fod yn uwch na'r hyn sy'n cael ei ddileu gan fesurau lliniaru maethynnau, gan arwain at gynnydd net yn y maethynnau sy'n mynd i mewn i amgylchedd afon yr ACA.

Defnyddir y glustog ragofalus 20% i gyfrif am yr ansicrwydd sydd wrth wraidd y mewnbynnau i Gam 1 i Gam 3 cyfrifiadau'r gyfrifiannell maethynnau, yn ogystal â chyfrif am rai ffynonellau maethynnau posibl sy'n gysylltiedig â datblygiad newydd na ellir eu meintioli'n rhwydd. Byddai darparu ar gyfer pob mewnbwn posibl i gyllideb maethynnau gyda digon o sicrwydd i ddileu'r angen am y glustog ragofalus yn gofyn am ymchwiliadau

penodol i safle helaeth. Mae’r glustog ragofalus 20% yn fodd o gyfrif am yr ansicrwydd yng nghyfrifiadau’r gyllideb maethynnau a rhoi hyder y bydd lliniaru’r gyllideb maethynnau’n dileu risg effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd y safle mewn ACAau.

Amddiffynnwyd y ffigur 20% yn llwyddiannus yn yr uchel lys gan Natural England ar gyfer ei ddull niwtraliaeth maethynnau. Fodd bynnag, mae’n anodd meintioli ansicrwydd yn fanwl gywir. Cwblhawyd adolygiad o’r ansicrwydd sy’n rhan annatod o’r mewnbynnau data ar gyfer methodoleg Cyllideb Maethynnau Sir Gaerfyrddin. Canfu’r adolygiad hwn fod yr ansicrwydd mwyaf yn gysylltiedig â’r mewnbynnau canlynol i’r cyfrifiad cyllideb maethynnau:

- Crynodiadau maethynnau ar gyfer WwTW heb derfyn a ganiateir;
- Crynodiadau ffosfforws mewn elifion cyfleusterau parod i drin carthion a thanciau septig
- Cyfernodau allforio o dir amaethyddol
- Cyfernodau allforio defnydd tir yr amgylchedd adeiledig

Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynhyrchu cyfernodau allforio amaethyddol ar gyfer y fethodoleg cyllideb maethynnau hon yn welliant ar y dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer methodoleg cyllideb maethynnau Sir Gaerfyrddin. Felly, o ystyried bod lefel yr ansicrwydd yr un fath at ei gilydd, ystyrir bod defnyddio ffigur 20%, fel sy’n wir yn Lloegr, yn werth synhwyrol a rhagofalus.

## 2.9 PA MOR AML MAE’R CYFRIFIANELLAU CYLLIDEB MAETHYNNAU’N CAEL EU DIWEDDARU?

Gellir diweddaru rhai agweddau ar y gyfrifiannell cyllideb maethynnau wrth i wybodaeth newid, er enghraifft, terfynau a ganiateir ar gyfer gwaith trin dŵr gwastraff. Fodd bynnag, bydd angen diweddaru’r gwaith modelu ar gyfer mewnbynnau eraill, fel y cyfernodau allforio amaethyddol. Argymhellir bod mewnbynnau’r gyfrifiannell yn cael eu hadolygu bob 2 flynedd, i sicrhau eu bod yn gywir, a’u hailddylunio’n llwyr bob 5 mlynedd.

## 3. CWESTIYNAU CYFFREDIN AM GEFNDIR NIWTRALIAETH MAETHYNNAU

### 3.1 BETH SY'N YSGOGI NIWTRALIAETH MAETHYNNAU?

Yn dilyn dyfarniad 2018 Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, y cyfeirir ato fel "Yr Achos Iseldirol", mae Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (HRAau) ar gyfer datblygiadau newydd yng Nghymru a Lloegr yn mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol (ACLlau) yn asesu a lliniaru effaith llwytho maethynnau ychwanegol ar safleoedd a ddynodwyd gan Ewrop (Safleoedd Dynodedig) a chanddynt nodweddion afonol sydd mewn cyflwr anffafriol o ganlyniad i grynodiadau maethynnau gormodol. Pe byddai datblygiad yn arwain at gynhyrchu maethynnau ychwanegol, argymhellir dull niwtraliaeth maethynnau, lle rhoddir mesurau lliniaru ar waith i 'niwtraleiddio' yr effaith. Heb fesurau lliniaru, ni all datblygiadau gael cydsyniad cynllunio.

### 3.2 BETH YW HRA?

Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn broses allweddol yn y fframwaith a sefydlwyd gan Reoliadau Cynefinoedd 2017 (Rheoliadau 63 a 64). Mae'n sicrhau nad oes unrhyw gynllun neu brosiect, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymwneud â defnydd tir a datblygiad, yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd a ddynodwyd gan Ewrop, fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) sy'n ffurfio rhan o rwydwaith Natura 2000. Mae safleoedd Ramsar wedi'u cynnwys yn y broses HRA o ganlyniad i bolisi a chanllawiau cynllunio'r Deyrnas Unedig, sy'n eu trin yn gyfwerth â safleoedd Ewropeaidd at ddibenion gwarchod. Mae paragraff 181 y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF) yn atgyfnerthu'r polisi hwn trwy ddatgan yn benodol y dylai safleoedd Ramsar gael eu gwarchod i'r un lefel, sy'n cynnwys ystyriaeth mewn HRAau.

Mae Rheoliad 70 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yn ymwneud â dyletswyddau awdurdodau cynllunio lleol wrth roi caniatâd cynllunio yn gysylltiedig â safleoedd Ewropeaidd a safleoedd morol alltraeth Ewropeaidd. Mae Rheoliad 70 yn sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn integreiddio'r broses HRA yn llawn yn eu prosesau penderfynu wrth roi caniatadau cynllunio. Mae'n eu cyfrwymo i'r gofynion cyfreithiol a sefydlir yn Rheoliadau 63 a 64, gan felly sicrhau nad yw prosiectau datblygu'n cael effaith niweidiol ar safleoedd Ewropeaidd oni bai y bodlonir amodau llym. Mae'r rheoliad hwn yn allweddol i warchod cyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd.

### 3.3 PAM MAE CYFRAITH YR UNDEB EWROPEAIDD YN EFFEITHIO AR Y DEYRNAS UNEDIG AR ÔL BREXIT?

Lluniwyd Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd (Cyfarwyddeb 92/43/EEC) i warchod cynefinoedd a rhywogaethau sy'n bwysig i Ewrop, gan sefydlu rhwydwaith o ardaloedd gwarchodedig a adwaenir fel safleoedd Natura 2000.

Yn y Deyrnas Unedig, gweithredwyd darpariaethau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd trwy'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau, y cyfeirir atynt yn gyffredin fel y Rheoliadau Cynefinoedd. Roedd fersiwn 2017 yn cydgrynhoi a diweddaru rheoliadau blaenorol, gan sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb.

Hwylusodd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 y broses o gadw'r rhan fwyaf o gyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd yn gyfraith ddomestig y Deyrnas Unedig pan adawodd y Deyrnas Unedig yr Undeb Ewropeaidd, gan sicrhau parhad cyfreithiol. Roedd hyn yn cynnwys y Gyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EEC) ac amddiffyniadau amgylcheddol cysylltiedig.

Yn dilyn Brexit, cadwyd Rheoliadau Cynefinoedd 2017 yn gyfraith y Deyrnas Unedig, ond gall y llywodraeth ddiwygio'r rheoliadau hyn neu ddargyfeirio oddi wrthynt, fel y bo angen. Fodd bynnag, mae egwyddorion craidd amddiffyn cynefinoedd a chadwraeth rhywogaethau wedi'u seilio o hyd ar y fframwaith a sefydlwyd i ddechrau gan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd.

T: +44 (0) 1235 75 3000

E: info@ricardo.com

W: www.ricardo.com